

Profion anadlu

Sganiau delweddu



Os oes gennych symptomau allai fod oherwydd problem ar yr ysgyfaint, gall pelydr-X o'ch brest neu sgan o'r ysgyfaint fod yn ddefnyddiol weithiau.

Gellir gwneud profion delweddu:

- I weld pam eich bod chi'n colli eich gwynt,
- Pam eich bod yn pesychu neu'n cael poen ar eich brest
- I weld a oes triniaeth benodol sy'n addas i'ch cyflwr chi
- I weld a yw eich cyflwr wedi ymateb i driniaeth
- Fel prawf sgrinio mewn pobl all fod mewn risg o gael problemau ar eu hysgyfaint
- I fonitro cyflwr ar yr ysgyfaint.

Mae gwahanol fathau o sganiau delweddu sy'n gallu dangos llun o'ch ysgyfaint a'ch llwybrau anadlu:

Prawf gan ddefnyddio pelydrau-X

Caiff y rhain eu gwneud mewn adran radioleg fel arfer.

- pelydr-X o'r frest
- sgan CT

Profion meddyginiaeth niwclear

Mae'r rhain fel arfer yn golygu cael chwistrelliad neu anadlu sylwedd sy'n dangos ar sganiwr.

- Sgan PET
- Sgan V/Q

Pelydr-X o'r frest

Beth yw pelydr-X o'r frest?

Mae pelydr-X o'r frest yn defnyddio pelydrau-X i gymryd llun gwastad, dau ddimensiwn o du mewn i'ch brest.

Math o belydriad yw pelydr-X, sy'n pasio drwy'r corff ac yn cael ei ddefnyddio i dynnu llun. Mae darnau caletach y corff, fel asgwrn, yn dangos yn wyn ar y llun. Mae meinweoedd soled, fel y galon neu'r iau, hefyd yn dangos yn wyn. Mae'r ysgyfaint yn gadael mwy o belydrau-X i mewn, ac yn edrych yn ddu.

Er bod pelydrau-X yn fath o belydriad, dim ond ychydig bach ohono sydd mewn pelydr-X o'r frest – tua'r un faint ag y byddech chi'n arfer dod i gysylltiad ag o (yn gefndirol) dros ddau ddiwrnod – ac nid yw'n niweidiol.

Ar gyfer beth mae pelydr-X o'r frest yn cael ei ddefnyddio?

Bydd gweithwyr proffesiynol yn defnyddio pelydr-X o'r frest i weld tu mewn i'ch ysgyfaint, ac i edrych ar eich ysgyfaint, eich asennau, eich calon, neu eich diaffram. Yn aml, dyma'r prawf cyntaf a ddefnyddir mewn pobl sy'n cael symptomau fel **diffyg anadl (blf.org.uk/breathlessness)**, pesychu gwaed, neu boen yn y frest. Caiff pelydr-X yn aml ei ddefnyddio ochr yn ochr â sgan CT, a phroffion eraill hefyd.

Sut alla' i baratoi am belydr-X o'r frest?

Cewch lythyr apwyntiad fel arfer. Darllenwch hwn yn ofalus rhag ofn bod angen i chi baratoi rhywbeth arbennig. Y prif beth sydd angen i chi ei wneud yw tynnu unrhyw beth metel, fel gemwaith, sip neu fwcl belt.

Os oes siawns eich bod yn feichiog, mae'n bwysig i chi ddweud wrth y radiograffydd, er mwyn iddynt leihau unrhyw belydr-X a gaiff eich babi yn y groth.

Beth sy'n digwydd yn ystod pelydr-X ar y frest?

Efallai y cewch belydr-X ar y frest fel claf allanol, neu wrth aros yn yr ysbyty.

Wrth gael pelydr-X ar eich brest, byddwch chi mewn un ystafell tra bydd gweithiwr gofal iechyd, o'r enw radiograffydd, yn aros drws nesaf neu tu ôl i sgrin. Bydd angen i chi dynnu unrhyw ddillad ar ran uchaf eich corff, gan gynnwys crys, fest a bra, a gwisgo gwn ysbyty.

Fel arfer, mae'n cael ei wneud yn sefyll, ond gellir cymryd pelydrau-X o'r frest wrth i chi eistedd neu orwedd, os oes angen. Bydd y peiriant pelydr-X yn cael ei anelu at eich brest i dynnu lluniau. Bydd angen i chi ddal eich gwynt am ychydig o eiliadau tra bydd y llun yn cael ei dynnu. Fel hyn, fydd y llun yn glir.

Pryd fyddai'n cael y canlyniadau?

Ni chewch chi'r canlyniadau yn syth fel arfer, oni bai eich bod chi'n wael iawn yn yr uned damweiniau ac achosion brys. Cewch apwyntiad efo eich meddyg i drafod y canlyniadau, a beth fydd yn digwydd nesaf.

Sgan CT

Beth yw sgan CT?

CT yw tomograffeg gyfrifiadurol. Mae'n defnyddio pelydrau-X i adeiladu llun tri dimensiwn o du mewn i'ch corff. Mae'n rhoi llun manwl o'ch ysgyfaint, eich gwythiennau gwaed a'ch organau eraill.

Efallai cewch chwistrelliad o ddefnydd sy'n dangos ar y sgan, ac sy'n gallu helpu i roi amlinelliad o'r llestri gwaed. Cyferbyniad yw'r enw ar hyn.

Ar gyfer beth mae'n cael ei ddefnyddio?

Bydd gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn defnyddio sgan CT i ddeall beth sy'n digwydd tu mewn i'ch ysgyfaint. Gellir ei ddefnyddio i weld os ydi eich ysgyfaint yn edrych yn normal, a helpu i wneud diagnosis o gyflyrau ar yr ysgyfaint.

Gellir defnyddio'r sgan hefyd i benderfynu pa fath o driniaeth sydd ei hangen, neu os ydych chi'n addas i gael triniaeth.

Weithiau, caiff sgan CT ei ddefnyddio i fonitro annormaledd ar yr ysgyfaint neu ymateb i driniaeth, er enghraifft mewn pobl efo canser ar yr ysgyfaint.

Sut alla' i baratoi am sgan CT?

Dylech gael llythyr yn dweud wrthych sut i baratoi am sgan CT. Darllenwch hwn yn ofalus i weld a oes unrhyw gyfarwyddiadau arbennig, er enghraifft am fwyta ac yfed.

Ni fyddwch yn cael gwisgo unrhyw beth metel yn ystod y sgan, felly bydd angen i chi dynnu unrhyw emwaith, beltiau neu ddillad metel.

Dywedwch wrth staff yr ysbyty os oes gennych alergedd i iodid, oherwydd gall iodid fod yn y defnydd cyferbyniad sy'n cael ei chwistrellu gyda rhai sganiau. Byddant hefyd yn gofyn a oes unrhyw bosibilrwydd y gallech fod yn feichiog.

Beth sy'n digwydd yn ystod sgan CT?

Rydych chi'n gorwedd ar wely gwastad, sy'n pasio drwy sganiwr CT siâp toesen, wrth i chi ddal eich gwynt. Fel arfer, dim ond ryw 10 eiliad fydd y sgan ei hun yn ei gymryd. Bydd gweithiwr gofal iechyd, sef radiograffydd, yn aros yn yr ystafell nesaf ac yn gweithio'r sganiwr.

Efallai y cewch chwistrelliad o liw cyferbyniad i wythïen yn eich llaw neu eich braich.

Mae rhai pobl yn bryderus am gael sgan CT, ac yn poeni am deimlo'n glawstroffobig. Mewn gwirionedd, er eich bod yn mynd drwy'r sganiwr, siâp toesen ydi hwn yn hytrach na thwnnel felly dim ond rhan ohonoch chi sydd tu mewn, a dim ond ychydig eiliadau mae'r sgan ei hun yn ei gymryd. Os ydych chi'n poeni, cofiwch ddweud wrth y bobl sy'n gwneud y sgan. Byddant yn gallu ateb unrhyw gwestiynau fydd gennych.

Caiff y sgan ei hun ei wneud tra byddwch chi'n dal un anadl, a bydd yn cymryd ryw ddeg eiliad. Cewch fynd adref yr un diwrnod.

Pryd fydd y canlyniadau ar gael?

Ni chewch chi'r canlyniadau yn syth, fel arfer. Rhaid i arbenigwr, o'r enw radiologydd, edrych dros y sganiau. Fel arfer, cewch apwyntiad efo eich meddyg i drafod y canlyniadau, a beth fydd yn digwydd nesaf.

Sgan PET

Beth yw sgan PET?

PET yw tomograffeg allyriant positron. Defnyddir y math hwn o sgan i fesur gweithgarwch y celloedd mewn rhannau gwahanol o'r corff. Mae'r sgan yn creu delweddau manwl tri dimensiwn o du mewn i'ch corff.

Mae rhannau o'r corff sy'n defnyddio dipyn o egni, fel llefydd ble mae llid neu haint, angen dipyn o siwgr i ddarparu'r egni. Cyn sgan PET, caiff sylwedd siwgr ei chwistrellu i lif y gwaed. Mae'r sgan PET yn mesur pa mor sydyn mae'r egni o'r sylwedd hwn yn cael ei ddefnyddio. Po fwyaf llachar yw'r darn ar y sgan, y mwyaf o egni mae'r celloedd yn ei ddefnyddio. Mae modd gweld y llefydd llachar hyn os oes llid neu haint, neu os oes canser yno.

Weithiau, caiff sgan PET ei ddefnyddio efo sgan CT, i greu delwedd fanylach. Sgan PET-CT yw'r enw arno.

Ar gyfer beth mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae sgan PET yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin mewn pobl sydd â chanser, neu allai fod â chanser. Gall y sgan PET helpu i ddangos os oes darn annormal, fel nodwl ysgyfaint, yn actif (sy'n dynodi canser yr ysgyfaint). Os nad yw nodwl yn goleuo ar y sgan PET, mae'n llai tebygol mai canser ydyw, ac mae'n fwy tebygol o fod yn graith.

Gall y sgan hefyd weld os yw'r canser wedi lledaenu i ran arall o'r corff, neu os yw'n ymateb i feddyginiaeth. Mae hyn yn bwysig iawn wrth gynllunio'r driniaeth orau.

Sut alla' i baratoi am sgan PET?

Cewch lythyr gan yr ysbyty yn dweud wrthyich sut i baratoi am eich sgan PET. Darllenwch hwn yn ofalus. Y cyngor fydd i chi beidio â bwyta unrhyw beth am chwe awr ynghynt, fel arall.

Cewch yfed hylif, ond dim ond dŵr ddylech chi yfed, yn ddelfrydol. Dylech hefyd osgoi gwneud ymarfer corff caled am 24 awr cyn eich apwyntiad.

Mae'n bwysig bod yn brydlon i'ch sgan PET oherwydd cyfnod silff byr sydd gan y sylwedd ymbelydrol sy'n cael ei ddefnyddio yn y sgan. Efallai na fydd eich sgan yn gweithio'n gywir os na chaiff ei wneud ar amser, a gellid canslo'r prawf. Os bydd hyn yn digwydd, bydd rhaid i chi aros am apwyntiad arall.

Dywedir wrthyich chi am osgoi babis a phlant, am rai oriau cyn cael sgan PET, oherwydd byddwch chi ychydig yn ymbelydrol. Os oes gennych blant, mae'n bwysig trefnu gofal plant dros yr amser hwn.

Beth sy'n digwydd yn ystod sgan PET?

Mae gan sganwyr PET wely gwastad efo sganiwr mawr, cylchol ar un pen. Cyn y sgan, cewch chwistrelliad o sylwedd sydd ychydig yn ymbelydrol, y gall sganiwr ei ganfod. Bydd gofyn i chi orwedd ar y bwrdd a fydd yn llithro i mewn i'r sganiwr PET. Mae'n bwysig i chi aros mor llonydd ag y gallwch, tra byddwch chi yn y sganiwr. Mae sganiau PET yn ddi-boen, a gallant gymryd ryw 30 i 60 munud.

Pryd fyddai'n cael y canlyniadau?

Ni chewch chi'r canlyniadau yn syth, fel arfer. Rhaid i feddyg radioleg arbenigol (radiolegydd) edrych dros y sganiau. Fel arfer, cewch apwyntiad efo eich meddyg i drafod y canlyniadau, a beth fydd yn digwydd nesaf.

Sgan V/Q

Beth yw sgan V/Q?

Mae sgan V/Q hefyd yn cael ei alw'n sgan awyru-darlifo, neu'n sgan darlifo ysgyfeiniol. Mae'n edrych ar lif yr aer a'r gwaed yn eich ysgyfaint.

Ar gyfer beth mae'n cael ei ddefnyddio?

Caiff sgan V/Q ei ddefnyddio i fesur sut mae gwahanol rannau o'r ysgyfaint yn gweithio. Mae'n rhoi gwybodaeth am ble mae aer yn mynd wrth i chi anadlu i mewn ac allan, ac a oes rhannau o'r ysgyfaint ble nad yw llif y gwaed yn arferol.

Mae'n cael ei ddefnyddio'n fwyaf cyffredin i weld a oes unrhyw glotiau gwaed yn yr ysgyfaint. Mae'r rhain yn dangos fel rhannau sydd yn cael aer, ond nid gwaed.

Gall sgan V/Q helpu gweithwyr gofal iechyd i benderfynu pa rannau o'ch ysgyfaint sydd angen triniaeth neu'n gallu cael eu trin, os yw llawdriniaeth yn cael ei hystyried. Defnyddir sganiau V / Q i helpu i gynllunio llawdriniaeth i dynnu canser yr ysgyfaint, neu ystyried a yw rhywun yn addas am leihau cyfaint yr ysgyfaint os oes ganddynt emffysema.

Weithiau, caiff y sgan V / Q ei gyfuno â sgan CT i gael llun manylach.

Sut alla' i baratoi am sgan V / Q?

Cewch lythyr gan eich ysbyty yn dweud wrthyhych a oes angen i chi wneud unrhyw beth i baratoi am eich sgan V/Q. Darllenwch hwn yn ofalus. Fel arfer, nid oes angen paratoi'n arbennig.

Os ydych chi'n feichiog neu'n bwydo o'r fron, dywedwch wrth eich gweithiwr gofal iechyd a dilyn y cyngor.

Beth sy'n digwydd yn ystod sgan V/Q?

Ar gyfer rhan awyru y sgan, bydd gofyn i chi anadlu nwy sydd ychydig yn ymbelydrol, o'r enw krypton, am ryw ddeg munud. Nid oes arogl na blas arno.

Ar gyfer darlifiad yr ysgyfaint, cewch chwistrelliad o ddefnydd sydd ychydig yn ymbelydrol. Weithiau, dim ond darn darlifiad y sgan sydd angen ei wneud.

Bydd y broses gyfan yn cymryd hyd at awr.

Pryd fyddai'n cael y canlyniadau?

Ni chewch chi'r canlyniadau yn syth, fel arfer. Rhaid i feddyg radioleg arbenigol (radiolegydd) edrych dros y sganiau. Fel arfer, cewch apwyntiad efo eich meddyg i drafod y canlyniadau.

Cysylltwch â ni er mwyn darganfod
cymorth yn agos i chi.

Llinell gymorth: 03000 030 555

Dydd Llun i ddydd Gwener, 9yb-5yh

Ni fydd galw ein llinell gymorth fyth yn costio mwy
na galwad lleol ac mae'r galwad fel arfer yn rhad ac
am ddim,
hyd yn oed ar ffôn symudol.

helpline@blf.org.uk

blf.org.uk

Cod: BK17 **Fersiwn:** 3

blf.org.uk/breathing-tests

Adolygiad diwethaf: Ionawr 2020

Adolygiad nesaf: Ionawr 2020

Rydym ni'n gwerthfawrogi adborth ar ein
gwybodaeth. Er mwyn mynegi eich barn, ac
am y fersiwn diweddaraf o'r wybodaeth hon a
chyfeirnodau, galwch y llinell gymorth neu ymw-
elwch â blf.org.uk